

PWYLLGOR CYNLLUNIO
DYDD MERCHER, 23 TACHWEDD 2022

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Cyfarfod mynychu o bell Dydd Mercher, 23 Tachwedd 2022

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Richard Lloyd (Cadeirydd)

Y Cyngorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge, Chris Bithell, Helen Brown, Carol Ellis, Dave Hughes, Paul Johnson, Richard Jones, Hilary McGuill, Ted Palmer, Mike Peers, Dan Rose ac Antony Wren

YMDDIHEURIADAU: Y Cyngorwyr Paul Cunningham, Adele Davies-Cooke a Gladys Healey

HEFYD YN BRESENNOL: Y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Rheolwr Gwasanaeth – Strategaeth, Rheolwr Gwasanaeth - Datblygu, Uwch Beiriannydd – Rheoli Datblygu Priffyrdd, Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu Tîm y De, Uwch Swyddogion Cynllunio, Cyfreithiwr a Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd.

26. DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Ted Palmer gysylltiad personol sy'n rhagfarnu yn ymwneud ag eitem 6.2 (062255) yn y rhaglen (Dymchwel a chodi adeiladau dofednod newydd ac isadeiledd cysylltiedig) gan fod aelod o'i deulu yn byw yn agos i'r safle.

Datganodd y Cynghorydd Antony Wren gysylltiad personol yn ymwneud ag eitem 6.4 (FUL/00358/22 yn y rhaglen - Trawsnewid hen dafarn nad yw'n cael ei defnyddio mwyach i ffurfio 11 o randai) gan ei fod yn aelod o Gyngor Tref Cei Connah.

27. SYLWADAU HWYR

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i Aelodau ddarllen y sylwadau hwyr a oedd wedi eu dosbarthu cyn y cyfarfod ac a oedd wedi eu hatodi i'r eitem yn y rhaglen ar wefan y Cyngor:

<https://cyfarfodyddpwyllgor.siryfflint.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=490&MIId=5230&Ver=4&LLL=1>

28. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Hydref 2022.

Materion yn codi

Rhoddodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) y wybodaeth ddiweddaraf ar y cynnydd o ran cais FUL/000143/22.

Cadarnhawyd y cofnodion fel cofnod cywir, fel y cynigiwyd ac a eiliwyd gan y Cynghorwyr Mike Peers a Hilary McGuill.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a phriodol.

29. EITEMAU I'W GOHIRIO

Dywedodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) nad oedd unrhyw eitemau wedi eu hargymell ar gyfer eu gohirio.

30. MAE ADRODDIAD Y PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, AMGYLCHEDD AC ECONOMI)

PENDERFYNWYD:

Cofnodi'r penderfyniadau fel y dangosir ar amserlen y Ceisiadau Cynllunio sydd wedi'i chynnwys fel atodiad.

31. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG HEFYD YN BRESENNOL

Roedd un aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar ddechrau'r cyfarfod.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 pm a daeth i ben am 3.43 pm)

.....

Y Cadeirydd

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gweddarlledu, a gellir eu gwyllo drwy ymweld â'r llyfrgell gweddarllediadau yma: <http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home>

Y PWYLLGOR CYNLLUNIO AR 23 TACHWEDD 2022

RHIF YR EITEM	CYNGOR TREF / CYMUNED	SAFLE / CAIS	SYLWADAU TRYDYDD PARTI / AELODAU LLEOL	PENDERFYNIAD
062368	Cyngor Cymuned Penarlâg	Cais llawn - newid defnydd tir ar gyfer lleoli carafanau at ddibenion preswyl, yn ogystal â chreu llawr caled ac ystafell amlbwrpas/ystafell ddydd ategol at y defnydd hwnnw	Roedd amodau ychwanegol fel a osodwyd yn y sylwadau hwyr. Darllenwyd datganiad o wrthwynebiad ar ran y Cyngorydd Gillian Brockley, Aelod Lleol. Siaradodd Mr Nat Green (asiant) o blaid y cais.	Gwrthod rhoi caniatâd cynllunio, yn groes i argymhelliad y swyddog, am y rhesymau canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • datblygiad amhriodol yng nghefn gwlad yn gorgyffwrdd â'r Rhwystr Glas; a • gwybodaeth annigonol yn ymwneud ag effeithiau posibl ar ddraenio
062255	Cyngor Tref Ysceifiog	Dymchwel a chodi adeiladau dofednod newydd ac isadeiledd cysylltiedig.	Roedd amodau ychwanegol fel a osodwyd yn y sylwadau hwyr.	Rhoi caniatâd cynllunio, yn unol ag argymhelliad y swyddog, yn ddibynnol ar yr amodau a osodwyd yn yr adroddiad a gydag amodau ychwanegol 7 ac 8 mewn perthynas â lleiniau gwelededd yn y fynedfa a diogelu'r geuffos o ganlyniad i newidiadau i'r fynedfa.
FUL/00007 7/22	Cyngor Cymuned Llanasa	Cais i godi 21 annedd gyda mynediad i'r briffordd y gellir ei mabwysiadu	Nodwyd sylwadau gan wrthwynebydd trydydd parti yn y sylwadau hwyr. Siaradodd Mr Brian Napier	Gohirio'r cais am y rhesymau canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • I alluogi'r Cyngor Cymuned i ailymweld â'u sylwadau o ganlyniad i ddryswch yn ymwneud â'r safle o

RHIF YR EITEM	CYNGOR TREF / CYMUNED	SAFLE / CAIS	SYLWADAU TRYDYDD PARTI / AELODAU LLEOL	PENDERFYNIAD
			<p>(preswlydd) yn erbyn y cais.</p> <p>Siaradodd Mr Chris Ralphs (asiant) o blaid y cais.</p> <p>Siaradodd y Cynghorydd Glyn Banks, Aelod Lleol, yn erbyn y cais.</p>	<p>dan ystyriaeth;</p> <ul style="list-style-type: none"> • I ystyried materion draenio a godwyd gan drydydd partïon; ac • Er mwyn i Ymweliad Safle ar gyfer y Pwyllgor gael ei drefnu
FUL/00035 8/22	Cyngor Tref Cei Connah	Trawsnewid hen dafarn nad yw'n cael ei defnyddio i ffurfio 11 o randai		Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a nodir yn yr adroddiad yn unol ag argymhelliad y swyddog.
FUL/00041 2/22	Cyngor Cymuned Llaneurgain	Dymchwel estyniad unllawr yn y cefn a'r ystafell haul - estyniad deulawr arfaethedig - yn debyg i'r cais a gymeradwywyd 037216		Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a nodir yn yr adroddiad yn unol ag argymhelliad y swyddog.
MATERION CYFFREDINOL				
063500	Cyngor Cymuned Llaneurgain	Materion Cyffredinol – Apelio ar sail methu penderfynu - datblygiad amlinellol o dir i ddarparu cabanau gan gynnwys swyddfa safle	<p>Nodwyd sylwadau gan drydydd partïon yn y sylwadau hwyr.</p> <p>Siaradodd y Cynghorydd Marion Bateman (Aelod Lleol) yn erbyn y cais.</p>	<p>Penderfynwyd y dylai'r Cyngor gymryd y safbwynt o argymell i'r PCAC y dylai'r cais gael ei wrthod am y rhesymau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried fod y cynnig yn cynnwys ffurf annymunol o ddatblygu a

RHIF YR EITEM	CYNGOR TREF / CYMUNED	SAFLE / CAIS	SYLWADAU TRYDYDD PARTI / AELODAU LLEOL	PENDERFYNIAD
			Siaradodd y Cynghorydd Linda Thew, (Aelod Lleol) yn erbyn y cais.	<p>fyddai, drwy rinwedd ei raddfa a'i leoliad, yn groes i gymeriad yr ardal wledig o amgylch, gan arwain at newid llwyr i ardal o dir nad yw wedi ei ddatblygu ar hyn o bryd ac ehangiad sylweddol o ffurf adeiledig i gefn gwlad yn groes i Bolisiâu STR7, GEN1 a T4 o Gynllun Datblygu Unedol Sir y Fflint; ac</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ystyrir y byddai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith andwyol ar y parth o leoliad hanfodol Parc a Gardd Hanesyddol Soughton Hall, sy'n adeilad Rhestredig Gradd II*, gan arwain at ffurf anghyson o ddatblygiad sy'n effeithio'n negyddol ar gymeriad hanesyddol a lleoliad y parc gwledig, gan wrthdaro gyda Pharagraff 6.1.18 o Bolisi Cynllunio Cymru ac yn groes i Bolisi HE5 o Gynllun Datblygu Unedol Sir y Fflint.